## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth 21 Tachwedd 2023**

**Yn bresennol:** Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd
**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Gareth Thomas, Evan Wyn Robertson a Dyfed Williams.

Gwr gwadd: Y Parch Mike Hall - (Arweinydd Sgwadron)

Roedd y Parchedig Hall wedi ei leoli gyda'r Awyrlu yn Fali ers pedair blynedd ac roedd eisoes yn adnabod sawl Aelod o'r Cyngor Cymuned yn bennaf trwy fod yn aelod o Grŵp Cynghrair Bro Llynnoedd. Roedd yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau rhwng yr Awyrlu a'r gymuned ehangach. Cymerodd Aelodau'r Cyngor eu tro i ofyn cwestiynau iddo ac ymatebodd fel a ganlyn:
Doedd yr Awyrlu ddim yn gallu cynnig cymorth ariannol i brosiectau fel goleuadau stryd ac ati gan fod eu rheoliadau mewnol yn gwahardd hyn. Fodd bynnag, roedd posib cael cefnogaeth i nifer o brosiectau bach a allai fod o fudd i'r gymuned.
Roedd adeilad yr Eglwys ar gael ar gyfer cyfarfodydd a diolchwyd iddo am ganiatáu i Gynghrair Bro Llynnoedd gyfarfod yno.
Roedd croeso i'r Cyngor Cymuned ddefnyddio hysbysfwrdd yr Eglwys i arddangos cofnodion ac ati neu gallai drefnu i'r Cyngor gael ei fwrdd ei hun ar dir yr Eglwys os oedd yn dymuno.
Roedd hefyd yn fwy na pharod i gartrefu diffibriliwr ar safle'r Eglwys a byddai'r clerc yn edrych i mewn i hyn.
Nid oedd yn bosib i'r Awyrlu gynorthwyo gyda darparu parcio wrth Crash gate 4 gan nad oedd ganddynt awdurdod dros unrhyw ran o'r tir yn y cyffiniau yna. Roeddent yn monitro'r sefyllfa a byddent yn saff o symud unrhyw gerbyd oddi yno pe bai angen.
Dywedwyd wrtho fod y Cyngor Cymuned yn awyddus i sicrhau nad oedd y gwaith arfaethedig ar y rhedfa yn amharu ar drigolion lleol nac yn creu difrod i'r lonydd. Cadarnhaodd fod hwn yn brosiect mawr ac y byddai llawer iawn o draffig trwm yn mynd yn ôl a blaen i'r safle. Cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn am sicrwydd fod yr Adran Briffyrdd yn monitro'r effaith ar wyneb Lôn Cymyran.

Arhosodd y Parch Hall am weddill y cyfarfod er mwyn cael gwell dealltwriaeth o waith y Cyngor.

1. **Ymddiheuriadau:** Lowri Owen ac Einir Thomas.

2. **Datganiad o Ddiddordeb** – Cyng. K. Taylor yn datgan diddordeb personol yn y materion cynllunio gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
   Derbyniwyd cofnodion 17 Hydref 2023 fel rhai cywir. (Cyng. Cyng. S.E Jones, eilydd y Cyng. E. W. Robertson.)

4. **Materion yn codi o'r munudau.**

4.1 Cae Chwarae Treifan : Dim byd pellach i'w adrodd.

4.2 Diffibriliwr Caergeiliog – Roedd Cyng. Gwilym Jones wedi cael gwybod y byddai angen talu tua £500 am osod y pŵer wrth stad Rhen Ysgol. Byddai’r clerc yn gwneud cais am ganiatâd ffurfiol gan adrannau Eiddo / Cynllunio CSYM ar ôl cael gwybod pa ddiffibriliwr oedd y mwaf addas.

4.3 Goleuadau Stryd a phalmentydd Ffordd Minffordd – dim byd pellach i'w adrodd.

4.4 Neuadd y Pentref: Roedd Cyng. Gwilym Jones a Gordon Owen angen cyfarfod â Chyfreithwyr y Neuadd i lunio cytundeb Prydles.

4.5 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion:
Cytunwyd i osod mainc ‘galvanised’ yn y lloches fws wth Llyn Penrhyn – amcan bris £420 a TAW.

**5. Penderfyniadau Cynllunio – dim**

**6. Ceisiadau Cynllunio**

6.1 CTIL_12211601 VF_87499_4 Fferm Tŷ Mawr,
E: 229770 E: 378760 Gwaith Uwchraddio Arfaethedig – dim arsylwadau.

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod rhwng 1.10.2023 a 31.10. 2023 ynghyd â chymodi banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £ 30390.98, Cyfrif Cadw £ 3,983.54.

Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2023/24 - wedi'i gyflwyno, byddai cyflog y clerc yn cael ei dalu yn unol â’r cytundeb cenedlaethol.

**8.** Taliadau:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Hydref) | £575.76 | GMS | £90 |
| Un Llais Cymru | £38 | | |

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

9.1 Adolygu Rhanbarthau Pleidleisio a Lleoedd Pleidleisio

9.2 Ymgynghoriad ar Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd.

9.3 Cylchlythyrau Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

9.4 Fforwm Cyswllt T & CC - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf – 14.12.2023

9.5 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Hydref 2023

9.6 Cynghorau Cymuned a Thref - Lwfansau Cynghorwyr - Trefniadau gweithio gartref a nwyddau traul.

9.7 Rheoli Asbestos

9.8 Strategaeth Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru –

10. **Dogfennau Statudol**
Cytunwyd i adolygu'r adroddiad blynyddol drafft yn y cyfarfod nesaf.

**11. Adroddiadau Aelodau**

11.1 Roedd y postyn a ddifrodwyd ar gyffordd 4 Dalar Hir dal angen sylw.

11.2 Mynegodd Cyng. Dyfed Williams bryderon am y lifogydd wrth Lon Tŷ Main, roedd y clerc i hysbysu CSYM. Nodwyd fod y ffordd heibio Fron Wen, Ffordd Minffordd yn ddrwg hefyd.

11.3 Dywedodd Cyng. Celfyn Furlong bod nifer y cerbydau sy'n cael eu parcio yn y gilfan wrth Bwthyn Ceirios yn achosi rhwystr – byddai’r clerc yn rhoi gwybod i CSYM.

**12. Cyfarfod nesaf – 16 Ionawr 2023.**

: